

Teitl:	Cynorthwydd Domestig
Lleoliad:	Gwasanaeth Seibiant Tŷ Augusta
Cyfarwyddiaeth:	Gwasanaethau Cymdeithasol
Rhif y Swydd:	BG02971
Cyflog:	Gradd 2 (£22,366 - £23,114 y flwyddyn pro rata)
Oriau:	15
Contract:	Parhaol

Crynodeb o'r Swydd

Cewch foddhad fel Cynorthwydd Domestig yng Ngwasanaeth Seibiant Tŷ Augusta!

Ydych chi'n angerddol am greu amgylchedd cynnes a chroesawgar i'n gwesteion? Ymunwch â'n tîm ymroddedig yng Ngwasanaeth Seibiant Tŷ Augusta fel Cynorthwydd Domestig a chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau gofod diogel, glân a meithringar i'n gwesteion. Mae'r contract parhaol, 15 awr hwn yn cynnig cyfle i chi gael effaith ystyrlon wrth ffynnu mewn amgylchedd gwaith cefnogol.

Ynglŷn â'r rôl

Fel Cynorthwydd Domestig yng Ngwasanaeth Seibiant Tŷ Augusta, byddwch yn chwarae rhan bwysig fel rhan o'n tîm. Yn ogystal â chynnal lle byw sy'n lân a chyfforddus i'n gwesteion, byddwch chi'n hollbwysig wrth wella eu lles a'u hapusrwydd hefyd. Bydd eich gwaith yn cyfrannu'n sylweddol at ddiogelwch a glendid y gwesteion a'r cymorth cyffredinol a roddir iddynt.

Rydym yn chwilio am unigolyn sy'n gallu canolbwyntio ar fanylion ac sy'n rhannu ein hymroddiad i gynnal safonau eithriadol. Mae eich rôl annatod yn sicrhau bod ein Gwasanaeth Seibiant yn parhau i fod yn lân iawn, gan greu amgylchedd byw a gweithio eithriadol sy'n cyd-fynd ag ansawdd y gofal a ddarparwn.

Mae eich cyfrifoldebau yn cwmpasu tasgau glanhau cynhwysfawr ar draws y ddau wasanaeth, gan gynnwys ardaloedd cymunol, ardaloedd cegin, ystafelloedd y gwesteion, ystafelloedd en-suite ac ystafelloedd ymolchi/cawod. Byddwch yn glanhau'n ddwfn bob dydd, gan gadw'n gaeth at brotocolau rheoli heintiau wrth flaenoriaethu preifatrwydd gwesteion a'u hanghenion unigol.

Er nad yw profiad blaenorol mewn cartref gofal yn angenrheidiol, mae eich natur dosturiol a'ch sylw i fanylion yn hanfodol. Mae eich ymrwymiad i feithrin amgylchedd glân a chroesawgar i westeion yn cael ei werthfawrogi'n fawr yn y rôl hon.

Beth ydym yn chwilio amdano?

Rydym yn chwilio am unigolion sy'n cael eu hysgogi gan empathi a thosturi ac sy'n awyddus i feithrin ymdeimlad o gartref a diogelwch i'n gwesteion. Mae eich ymrwymiad i gynnal safonau glendid uchel, ynghyd â dealltwriaeth ddofn o weithdrefnau rheoli heintiau, yn hanfodol. Rydym yn caru aelodau tîm sy'n meddu ar y gallu i addasu a pharodrwydd i ddysgu. Rydym yn cynnig hyfforddiant a chefnogaeth gynhwysfawr, gan wneud hwn yn gyfle delfrydol i'r rhai sy'n awyddus i dderbyn her newydd ac ehangu'r sgiliau sydd ganddynt.

Yn bwysicaf oll, rydym yn chwilio am unigolion sy'n gwerthfawrogi pa mor bwysig yw creu awyrgylch cynnes a deniadol. Mae eich ymroddiad i ddarparu gofal eithriadol a'ch awydd i gyfrannu'n gadarnhaol at fywydau ein preswylwyr yn briodolddau gwerthfawr iawn yn ein hymgais i gynnal amgylchedd lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi.

Pam dewis Gwasanaeth Seibiant Tŷ Augusta?

Yng Ngwasanaeth Seibiant Tŷ Augusta, rydym yn credu mewn dathlu ymroddiad a gwerthfawrogi cyfraniad pob aelod o'r tîm. Ymunwch â thîm trugarog a chefnogol sy'n meithrin twf a datblygiad proffesiynol. Yma, byddwch chi'n profi'r boddhad o wneud gwahaniaeth gwirioneddol ym mywydau ein gwesteion bob dydd.

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gofal eithriadol a meithrin amgylchedd lle mae ein gwesteion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu parchu a'u trysori. Ymunwch â'n tîm a byddwch yn rhan o sefydliad sy'n gwerthfawrogi ac yn rhoi gwerth ar ymroddiad ei weithwyr.

Buddion:

Hyfforddiant Cynhwysfawr: Mynediad at gyfleoedd hyfforddi a datblygu parhaus.

Amgylchedd Cefnogol: Gweithiwch mewn awyrgylch anogol sy'n gwerthfawrogi eich ymroddiad.

Gwaith Gwerthfawr: Teimlwch y llawenydd sy'n gysylltiedig â chael effaith ystyrlon bob dydd.

Cydbwysedd Bywyd a Gwaith: Mwynhewch amserlen hyblyg sy'n hyrwyddo cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith.

Beth sydd nesaf?

Darllenwch y swydd-ddisgrifiad a manyleb y person cyn clicio ar 'Gwneud Cais' i gychwyn y ffurflen gais ar-lein.

Os hoffech gael trafodaeth agored ac anffurfiol am y rôl hon, cysylltwch â:

Helen Beecham | 01495 305805 | Helen.beecham@blaenau-gwent.gov.uk

Cynhelir sgrinio cyn-gyflogaeth trylwyr yn ystod y broses recriwtio. Bydd gofyn i ddeiliad y swydd gwblhau cais am ddatgeliad cofnodion troseddol.

Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, llenwch Ffurflen Gais Swyddi Cymraeg

Dyddiad Cau: 04/07/2024

Dyddiad y Cyfweiliad: I'w gadarnhau